YSGOL LLAN-Y-PWLL

Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr i Rieni ar gyfer y flwyddyn academaidd Medi 2022 – Awst 2023

Cyfeiriad Ysgol
YSGOL LLAN-Y-PWLL
FFORDD PARC BORRAS
WRECSAM
LL12 7TH
Rhif Ffôn: (01978) 594101
e-bost: mailbox@ysgolllanypwll-pri.wrexham.sch.uk
Gwefan: http:/www.ysgolllanypwll.cymru

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Y Cynghorydd Carrie Harper

Pennaeth: Mrs Rhiannon James
(Pennaeth Dros Dro mewn swydd tan Medi 2024 – ar secondiad ar hyn o bryd)

OED: 3+ - 11+ (Dim ond disgyblion Meithrin a Derbyn yn ystod y flwyddyn academaidd 2022-2023)

Ymgynghorydd Cefnogi Gwella Ysgol:
Mrs Ruth Price Roberts

Annwyl Rieni/ Gofalwyr,

Ysgrifennaf ar ran Corff Llywodraethol Ysgol Llan-y-Pwll i gyflwyno ac adrodd ar waith yr ysgol dan arweiniad y Pennaeth a'r Llywodraethwyr dros y flwyddyn academaidd 2022 – 23.

Prif bwrpas y corff llywodraethol yw sicrhau bod safonau yn yr ysgol yn cael eu cynnal a gwella lle bo modd. Fel Corff Llywodraethol, 'rydym wedi cyfarfod yn rheolaidd i roi cefnogaeth i'r Pennaeth a Staff i sicrhau safonau. Mae'r adroddiad atodedig yn cynnwys manylion ynglŷn â'r ysgol, y Corff Llywodraethol a Staff, mae hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â'r ysgol, materion ariannol a blaenoriaethau'r ysgol.

Agorodd Ysgol Llan-y-Pwll, sef ysgol gynradd Gymraeg diweddaraf Wrecsam ym mis Medi 2022. Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur a chyffrous : yn cynnwys agor yr ysgol a symud i mewn i'r adeilad ysgol newydd ym mis Chwefror 2023. Gyda chwblhau adeilad y Cylch ym mis Mai 2023, mae'r gwaith adeiladu yn yr ysgol bellach wedi ei gwblhau. Hoffwn ddiolch i'r staff a'r rhieni am eu cefnogaeth wrth i'r ysgol gymryd y camau cyntaf ar y daith ysgol gyffrous hon.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau yr hoffech inni ymateb iddynt, a wnewch chi gyfeirio eich cwestiynau ataf i os gwelwch yn dda.

Yn gywir,

Y Cynghorydd Carrie Harper

Cadeirydd Llywodraethwyr

Y CORFF LLYWODRAETHOL

Name	Swydd Llywodraethwr	Dyddiad Diwedd Tymor
Mrs Rhiannon James	Pennaeth	Ex offico
Mrs Lowri Parry	Athrawes	01/09/2026
Mrs Iola Emmanuel	Staff	01/09/2026
Cynghorydd Carrie Harper	ALl	04/07/2025
Cynghorydd Becca Martin	ALl	04/07/2025
Ms Helen Cadman	Rhiant	01/09/2026
Mrs Elin Williams	Rhiant	01/09/2026
Mrs Siân Jones	Rhiant	01/09/2026
Mrs Ceri Edwards	Cymuned	11/07/2025
Mr Rob Nicholson	Cymuned	11/07/2025
Cynghorydd Andy Gallanders	Cymuned Ychwanegol	30/06/2027

Clerc: Mrs Adrienne Jones (CBSW Gwasanaethau Clerigol)
Adrienne.jones@wrexham.gov.uk
I gysylltu gyda'r Cadeirydd, e-bostiwch yr ysgol os gwelwch yn dda.
Ni hawliodd y Llywodraethwyr unrhyw gostau teithio neu gynhaliaeth yn ystod y flwyddyn. Mae chwe aelod o'r Corff Llywodraethol yn siarad Cymraeg.

Cyfarfodydd y Corff Llywodraethol

Cymerodd y Corff Llywodraethol drosodd oddi wrth y Corff Llywodraethol Dros Dro ym mis Ionawr 2023 a chynhaliwyd cyfarfod o leiaf unwaith y tymor drwy gydol y flwyddyn addysgol. Cynhaliwyd y cyfarfodydd yn yr ysgol.
Rhai o'r materion a drafodwyd oedd: y Cynllun Gwella Ysgol, Cyllid, hyrwyddo'r ysgol a lles y staff a disgyblion.

Adolygu Polisïau

Mae'r corff llywodraethol yn adolygu polisïau yn gyson ac mae rhaglen mewn llaw i'w hadolygu dros gyfnod o amser.

Cyfarfodydd gyda Rhieni

Gall rhieni gwneud cais am hyd at dri chyfarfod y flwyddyn gyda'r corff llywodraethol. Cysylltwch gyda'r ysgol neu Gadeirydd y Llywodraethwyr os ydych angen mwy o wybodaeth os gwelwch yn dda.

Staff

Mrs Rhiannon James	Pennaeth Dros Dro

Athrawon	**Blwyddyn**
Mrs Lowri Parry	Meithrin a Derbyn

Cynorthwyon Dysgu

Miss Annalise Wong	Lefel 3
Miss Hallie Wynn Davies	Prentis Lefel 2

Staff Ategol

Mrs Iola Emmanuel	Ysgrifenyddes
Mr Gwynfor Roberts	Gofalwr/Glanhawr

Niferoedd Disgyblion

Ym mis Mehefin 2022 'roedd yna 6 disgybl llawn amser a 10 disgybl rhan amser yn y dosbarth Meithrin yn Ysgol Llan-y-Pwll.

Trefniadaeth Dosbarth

Gall yr ysgol ddarparu lle ar gyfer 30 disgybl bob blwyddyn (sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd – Meithrin a Derbyn).

Ethos ac Amcanion

Prif amcan yr ysgol yw bod yn ysgol ble mae pob disgybl yn gyfartal ac yn cael eu herio i gyrraedd eu llawn botensial mewn awyrgylch cyfeillgar, gofalus, croesawgar a chreadigol. Bydd Ysgol Llan-y-Pwll yn paratoi'r disgyblion i fod yn unigolion abl, hyderus, hapus ac annibynnol ar hyd eu hoes. Yn ganolog i hyn fydd y defnydd a'r datblygiad o'r Gymraeg a dysgu am ein treftadaeth. Bydd y dysgwyr yn cefnogi ei gilydd i fod yn hyderus a gwydn, yn croesawu her ac yn parhau i gyrraedd eu hamcanion. Byddant yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer dysgu, bywyd a gwaith.

Prif amcanion yr ysgol yw:

- Darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau bod pob disgybl yn ddwyieithog.
- Datblygu meddyliau bywiog a chwilfrydig drwy hybu sgiliau sylfaenol, fel bod pob plentyn yn gweithio hyd eithaf ei allu.
- Sicrhau bod pob plentyn yn ymwybodol o'n traddodiadau a'n diwylliant fel Cenedl.
- Annog cydweithrediad rhwng yr ysgol, y cartref a'r gymdeithas er lles y plentyn.
- Cyflawni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Cwricwlwm Newydd

Mae ysgol Llan-y-Pwll wedi defnyddio canllawiau Cwricwlwm i Gymru i ddatblygu Cwricwlwm ei hunain sy'n galluogi'r dysgwyr i ddatblygu tuag at bedwar diben y cwricwlwm; y man cychwyn a'r dyhead ar gyfer pob plentyn a phobl ifanc yng Nghymru. Mae gwybodaeth ynglŷn â'r Cwricwlwm Cymraeg a chrynodeb ar wefan yr ysgol.

Defnydd o'r Iaith Gymraeg

Mae'r ysgol hon yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Mae nifer uchel o blant yn cychwyn yr ysgol heb fod wedi gwneud fawr ddim defnydd o'r Gymraeg, os o gwbl. Mae pob plentyn yn y Cyfnod Sylfaenol yn profi pob rhan o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyfleoedd Cerddorol

Mewn gwersi a drwy ymweliadau (e.e. Sioe Dewi a Doti), mae'r disgyblion yn cael cyfle i brofi cyfleoedd cerddorol eang. Fel bydd y disgyblion yn tyfu, byddwn yn cynnig gwersi offerfynol gan hyfforddwyr Gwasanaeth Cerdd Cydweithredol Wrecsam.

Chwaraeon

Mae'r plant yn cael cyfle mewn gwersi i gymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon. Cyn i adeilad yr ysgol cael ei gwblhau, 'roedd y rhain yn dibynnu ar y tywydd, fodd bynnag gan fod gennym bellach neuadd ceir cymysgedd o wersi ymarfer corff tu mewn a thu allan.

Bwyta Iach

Cefnogir y disgyblion i fwyta'n iach. Maent i gyd yn derbyn diod o laeth ac yn gallu cael diod o ddŵr yn ystod y bore. Amser byrbryd, mae dewis o fyrbryd iachus – sy'n cynnwys ffrwythau, llysiau neu salad.

Ymddygiad

Mae ymddygiad y disgyblion yn gyffredinol yn dda. Mae'r pwyslais ar hybu ymddygiad cadarnhaol ac annog disgyblion i drin ei gilydd gyda pharch a charedigrwydd. Bydd disgyblion yn cael eu disgyblu yn ôl yr angen, gyda phwyslais ar ganlyniadau eu gweithredoedd fel eu bod yn deall pam fod angen iddynt ymddwyn yn ddisgybledig. Mae'r polisi ymddygiad hefyd yn cydnabod ymddygiad da ac mae sawl cyfle i wobrwyo a dathlu hyn.

Prosbectws yr Ysgol

Mae prosbectws yr ysgol ar wefan yr Ysgol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae pob disgybl yn dilyn cwricwlwm yr ysgol oni bai bod trefniadau arbennig mewn lle i ddatgymhwyso am resymau penodol, megis materion meddygol neu anghenion dysgu ychwanegol. Gwneir darpariaeth yn y cynlluniau gwaith ar gyfer pob dosbarth i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth o fewn y dosbarth ac yn achlysurol mewn grwpiau bach neu un i un.

Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gweithio ar draws yr ysgol gyda phob grŵp oedran. Gan weithio gyda staff a rhieni ac asiantaethau allanol, mae'r Cydlynydd yn sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu cydnabod a bod disgyblion yn derbyn yr holl gefnogaeth angenrheidiol i gyrraedd eu targedau unigol. Adolygir targedau unigol gyda'r rhieni o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Mae'r ysgol yn cynhyrchu proffiliau un tudalen ar gyfer disgyblion ac yn cynnal adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer disgyblion ag anghenion mwy cymhleth.

Mae Cynorthwywyr Dosbarth yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi disgyblion ag anghenion penodol mewn llythrennedd a rhifedd a chymorth emosiynol.

Mae rhai disgyblion yn elwa ar raglenni dal i fyny tymor byr i gyflymu cynnydd.

Nid yw'r disgyblion hyn ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol.

Yn 2022, 'roedd 0 disgyblion ar y gofrestr.

Mrs Rhiannon James yw Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr Ysgol.

Cwynion

Ymfalchïwn yn ein perthynas â rhieni a'n polisi o fod yn barod i wrando. 'Rydym yn rhagweld y bydd cwynion/pryderon yn cael eu trin mewn modd anffurfiol a chwrtais drwy drafodaeth rhwng yr athro a'r rhiant/gwarchodwr. Dylai rhieni ddod ag unrhyw gwynion/pryderon sydd heb eu datrys i sylw'r Pennaeth ac wedyn Cadeirydd y Llywodraethwyr os ydynt yn anfodlon gyda'r modd cafodd eu cwynion/pryderon eu trin.

Cyfleusterau i Bobl Anabl

'Rydym yn sicrhau bod disgyblion sydd ag anabledd ddim yn cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill. Wrth baratoi cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd rhoddwyd sylw manwl i anghenion disgyblion ag anabledd. Mae rampiau wedi'u gosod wrth bob drws allanfa sydd gyda gris. Mae adeilad yr ysgol i gyd ar un llawr.

Toiledau'r Ysgol

Mae digon o doiledau ar gyfer ein disgyblion yn yr ysgol. Mae'r cyfleusterau yn briodol ar gyfer oedran eu defnyddwyr ac mae pob toiled yn cael eu glanhau yn ddyddiol. Mae toiledau ychwanegol ar gael i staff ac ymwelwyr yn unig.

Cefnogi Elusennau

Yn ystod y flwyddyn mae ein disgyblion a'u teuluoedd wedi cefnogi amryw o elusennau, gan gynnwys Plant mewn Angen, Banc Bwyd Wrecsam, Achub y Plant a Macmillan.

Cysylltiadau â'r Gymuned

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2022-2023, 'rydym wedi sefydlu cysylltiadau cryf gyda'r gymuned. Mae'r heddlu, gwasanaeth tân a nyrs i gyd wedi ymweld â'r ysgol i rannu gwybodaeth ar sut maent yn helpu. 'Rydym hefyd wedi gweithio ochr yn ochr gyda'r Cyngor i ddatblygu ein hysgol Goedwig. Daeth nifer o rieni i roi cymorth hefyd. 'Rydym hefyd wedi gweithio gyda Menter Iaith, Llyfrgell Wrecsam a Leisa Mererid i ddarparu profiadau Cymraeg i'r disgyblion. Cawsom ddiwrnod agored llwyddiannus ym mis Gorffennaf a roddodd gyfle i'r gymuned ymweld â'r ysgol a dysgu mwy am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cysylltiadau Ysgol a Rhieni

Rhoddir pwyslais mawr gan Lywodraethwyr ar y cyswllt rhwng yr ysgol a rhieni, rydym yn gweld hwn fel elfen bwysig o waith yr ysgol. Mae cydweithrediad rhieni yn nhermau addysg y plant yn hanfodol, nid yn unig fel unigolion yn awyddus i roi cymorth yn natblygiad eu plant, ond hefyd fel tîm o rieni sy'n bywiogi a chynnal yr ysgol. Mae'r Corff Llywodraethol hefyd yn sicrhau bod yr ysgol yn cadw cysylltiad agos gyda rhieni drwy ohebu'n rheolaidd gyda rhieni i'w hysbysu am holl weithgareddau a threfniadau'r ysgol. Mae gan yr ysgol wefan cyffroes sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig a chyfoes am yr ysgol. Rydym yn sicrhau bod rhieni, mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth, yn cael cyfle i alw fewn i'r ysgol i drafod unrhyw fater sydd yn ymwneud â nhw.
Mae adroddiadau ysgrifenedig yn cael eu rhannu gyda rhieni ar gynnydd eu plant, gan gynnwys targedau i'r dyfodol.

Rhiant Llywodraethwyr

Pan fydd llefydd gwag yn codi ar gyfer Rhiant Lywodraethwr, bydd yr ysgol yn anfon gohebiaeth trwy lythyr ynglŷn â'r broses bydd yn cymryd lle.

Cynllun Gwella'r Ysgol 2022-2023

Mae Cynllun Gwella'r Ysgol yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol ac yn cael ei drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd o'r Corff Llywodraethol.

Y blaenoriaethau ar gyfer 2022-2023 oedd:-
Blaenoriaeth 1 – Arwain gweithdrefnau gweithredol ar gyfer yr ysgol newydd

Blaenoriaeth 2 – Datblygu, gwella a mireinio ymgysylltiad yr ysgol gyda'r Daith Diwygio

Blaenoriaeth 3 – Datblygu sgiliau llafar Cymraeg disgyblion y dosbarth Meithrin a Derbyn.

Y blaenoriaethau ar gyfer 2023-2024 yw:-

Blaenoriaeth 1 : Datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd rhifedd y disgyblion o fewn yr ardaloedd

Blaenoriaeth 2 : Datblygu'r elfen llesiant a meddylfryd twf gan fapio hyn ar gyfer yr ysgol gyfan

Blaenoriaeth 3 : Parhau i ddatblygu sgiliau llafaredd Cymraeg y dysgwyr a datblygu eu sgiliau darllen

Blaenoriaeth 4 : Datblygu strategaethau a sgiliau hunan asesu'r dysgwyr gan fapio'r rhain ar draws yr ysgol gyfan

CRYNODEB O'R DATGANIAD GWARIANT ARIANNOL 2022 - 2023

Blwyddyn Ariannol 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023

Agorodd yr ysgol ym mis Medi 2022

PENNAWD CYLLIDEB	GWARIANT (INCWM) WEDI'I GYNLLUNIO YN Y GYLLIDEB	GWARIANT/ (INCWM) GWIRIONEDDOL	BALANS
CYFLOGEION	92,511.00	96,368.80	-857.80
SAFLE	19,400.00	16,394.45	3,005.55
TRAFNIDIAETH	50	175.73	-125.73
CYFANSWM TALIADAU 3ydd PARTI	27,815.00	6,675.74	21,139.26
CYFLENWADAU	34,312.00	11,463.19	22,848.71
GWASANAETHAU CYMORTH	8,108.00	7,765.95	342.05
CYFANSWM INCWM	*-8,714.00*	*-24,613.72*	*15,899.72*
CYFANSWM GWARIANT	173,482.00	111,230.14	62,251.86

Cafodd y swm o £62,251.86 ei gario ymlaen, sef 35.88% o'r gyllideb.

Mae'r ffigwr yn uwch na'r disgwyl o ganlyniad i fethu gwario ar brosiectau arbennig oherwydd yr oedi wrth gwblhau'r gwaith adeiladu.

Cronfa'r Ysgol

Ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022.

	Derbyniadau		Taliadau
Balans wedi'i gario 'mlaen	£ 0.00	Gwariant	£0.00
Derbyniadau	£204.96	Balans	£204.96
Cyfanswm	£204.96	Cyfanswm	£204.96

Archwiliodd Mr Michael Harper llyfrau, y tablau a'r dogfennau sy'n gysylltiedig â chyfrif Ysgol Llan-y-pwll ac fe dystiodd i'w cywirdeb.

Presenoldeb

Medi 2022 – Awst 2023 Ysgol Gyfan – 91.8%

Dosbarth Derbyn 95.7% 6 absenoldeb diawdurdod

Trefn y dydd

9:05 : Drysau yn agor

9:10 – 10:30 : Cofrestru – Sesiwn 1

10:30 – 10:45 : Amser Egwyl

10:45 – 12:00 : Sesiwn 2

11:40 – Amser mynd adref dysgwyr y dosbarth Meithrin

12:00 – 1:00 : Amser Cinio

1:00 – 2:15 : Sesiwn 3

2:10 – 2:25 : Amser Egwyl

2:25 – 3:25 : Sesiwn 4

3:25 : Amser mynd Adref

Dyddiadau'r Tymor 2023 – 2024

Tymor yr Hydref

Agor	Gwener	Medi'r 1af 2023
Cau	Gwener	Hydref 27ain 2023
Agor	Llun	Tachwedd 6ed 2023
Cau	Gwener	Rhagfyr 22ain 2023

Tymor y Gwanwyn

Agor	Llun	Ionawr 8fed 2024
Cau	Gwener	Chwefror 9fed 2024
Agor	Llun	Chwefror 19eg 2024
Cau	Gwener	Mawrth 22ain 2024

Tymor yr Haf

Agor	Llun	Ebrill 8fed 2024
Gŵyl Mai	Llun	Mai 6ed 2024
Cau	Gwener	Mai 24ain 2024
Agor	Llun	Mehefin 3ydd 2024
Cau	Gwener	Gorffennaf 20fed 2024

Diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd

Gwener	Medi 1af 2023
Llun	Medi 4ydd 2023
Gwener	Rhagfyr 22ain 2023
Llun	Ionawr 8fed 2024
Gwener	Mawrth 22ain 2024
Gwener	Gorffennaf 19eg 2024

Dyddiadau'r Tymor 2024 – 2025

Nodwch dydy dyddiadau Hyfforddiant mewn Swydd 2024-2025 heb eu cytuno eto.

Tymor yr Hydref

Agor	Llun	Medi 2il 2024
Cau	Gwener	Hydref 25ain 2024
Agor	Llun	Tachwedd 7fed 2024
Cau	Gwener	Rhagfyr 20fed 2024

Tymor y Gwanwyn

Agor	Llun	Ionawr 6ed 2025
Cau	Gwener	Chwefror 21ain 2025
Agor	Llun	Mawrth 3ydd 2025
Cau	Gwener	Ebrill 11eg 2025

Tymor yr Haf

Agor	Llun	Ebrill 28ain 2025
Gŵyl Mai	Llun	Mai 5ed 2025
Cau	Gwener	Mai 23ain 2025
Agor	Llun	Mehefin 23ain 2025
Cau	Llun	Gorffennaf 2025

Dyma ddiwedd Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni ar gyfer 2022-2023.